

1. Amdanom ni

Mae'r hysbysiad preifat hwn yn esbonio sut mae Swansea Building Society (ni) o 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW, yn casglu, storio a defnyddio eich **gwybodaeth bersonol**. Ni yw rheolwr data eich gwybodaeth bersonol, sy'n golygu gwybodaeth sydd amdanoch chi neu y gallwn ni eich adnabod oddi wrtho. Darllenwch hyn yn ofalus os gwelwch yn dda er mwyn deall sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, neu os dymunwch ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau a grybwyllir ynddo, cysylltwch os gwelwch yn dda â'n Swyddog Diogelu Data, naill ai drwy ysgrifennu atom yn 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW neu drwy e-bost ar dpo@swansea-bs.co.uk.

2. Pam fod angen i ni gasglu eich gwybodaeth bersonol?

Rydym ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn y ffyrdd canlynol:

- I gadarnhau pwy ydych chi pan fyddwch chi'n agor cyfrif neu'n cysylltu â ni;
- I ystyried ac asesu eich cais am wasanaeth, cyfrif neu rôl gyda ni;
- I reoli a gweinyddu eich cyfrif(on) gyda ni;
- I roi gwybodaeth i chi y byddwch chi'n gofyn i ni amdano a'ch hysbysu am newidiadau i'n gwasanaethau;
- I ddarparu gwybodaeth i chi am nwyddau a gwasanaethau eraill a gynigir gennym a fyddai, yn ein tyb ni, o ddiddordeb i chi; a
- I adfer dyledion sy'n ddyledus i ni ac atal troseddau ariannol;
- I wella ein gwefan er mwyn sicrhau fod ei chynnwys yn cael ei chyflwyno yn y dull mwyaf effeithiol ar eich cyfer chi a'ch cyfrifiadur; ac
- I gadw ein gwefan yn ddiogel.

Gellir newid eich gwybodaeth bersonol yn ddata ystadegol neu gasgledig na ellir mo'i ddefnyddio i'ch adnabod chi. Yna, fe ellir ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau ac ymchwil ystadegol. Yna, gellir defnyddio'r data di-enw hwn ymhob un o'r ffyrdd a ddisgrifir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. A oes raid i chi roi eich gwybodaeth bersonol i ni?

Os nad ydych chi'n darparu'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom, efallai na fyddwn ni'n gallu darparu ein cynnyrch a'n gwasanaethau i chi, na phrosesu eich cais. Mae angen eich gwybodaeth bersonol arnom cyn y gallwch chi fynd i gytundeb â ni, neu mae'n angenrheidiol yn ystod oes y cytundeb hwnnw, neu mae'n angenrheidiol gan gyfreithiau sy'n berthnasol i ni. Os ydym ni eisoes yn dal rhywfaint o'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom – er enghraifft, os ydych chi'n gwsmer eisoes – efallai na fydd angen i ni ei chasglu eilwaith pan fyddwch chi'n gwneud cais. Byddwn ni'n dweud wrthy'ch ar ein ffurflenni cais pa wybodaeth sy'n orfodol a beth sy'n ddewisol i chi eu darparu.

4. O ble fyddwn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol?

Byddwn ni fel arfer yn casglu eich gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol oddi wrthy'ch chi (er enghraifft pan fyddwch chi'n llenwi ffurflen gais neu'n cysylltu â ni ynglŷn â'ch cyfrifon).

Byddwn hefyd yn cael eich gwybodaeth bersonol o ffynonellau eraill, gan gynnwys Asiantaethau Cyfeirio Credyd (CRAs), y Gwasanaeth Datgelu ac Atal (DBS), eich cyflogwr, landlord, benthycwyr eraill, Cyllid a Thollau, Adran Gwaith a Phensiynau, cyfeiriadau a gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus (e.e. llyfr rhifau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, y we, erthyglau newyddion), asiantwyr adfer a / neu olrhain dyled, sefydliadau eraill ar gyfer atal a chanfod trosedd, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodir gyfraith.

Bydd rhyw gymaint o'r wybodaeth bersonol a geir oddi wrth Asiantaethau Cyfeirio Credyd wedi deillio o ffynonellau a gyrchir yn gyhoeddus. Yn enwedig, bydd Asiantaethau Cyfeirio Credyd yn tynnu ar benderfyniadau'r llysoedd, cofrestrau methdalau a'r gofrestr etholiadol. Esbonnir ymhellach am yr Asiantaethau Cyfeirio Credyd isod.

Os cawsoch eich cyflwyno i ni drwy frocer neu ganolwr arall

Mae ein cynnyrch a'n gwasanaethau ar gael drwy ein canghennau ni ein hunain yn ogystal â thrwy gynghorwyr ariannol a phroffesiynol ac unrhyw un sy'n gweithredu fel person sy'n eistedd rhyngoch chi a ni yng nghyd-destun yr hyn a wnawn i chi. Yn yr hysbysiad hwn byddwn ni'n galw'r bobl hynny'n **froceriaid a chanolwyr** eraill.

Pan fydd brocer neu ganolwr arall yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar ein rhan, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn weithredol a dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data i arfer eich hawliau o dan ddeddfau diogelu data. Pan fydd brocer neu ganolwr arall yn prosesu eich gwybodaeth bersonol fel rheolwr data yn ei hawl ei hun, bydd ei hysbysiadau preifatrwydd yntau'n weithredol, ac fe ddylech ofyn iddo yntau am gopi os nad oes gennych un erbyn i chi gael eich cyflwyno i ni.

Ceisiadau ar y cyd, gwarantwyr ac atwrneiaeth

Os byddwch chi'n gwneud cais ar y cyd gyda'ch priod, eich cymar neu aelod o'ch teulu, byddwn ni hefyd yn casglu'r wybodaeth bersonol a grybwyllwyd uchod amdany'n nhw. Rhaid i chi ddangos yr hysbysiad preifatrwydd hwn i'r ymgeisydd arall a sicrhau eu bod yn deall y byddwch chi'n ei rannu â ni i'r pwrpasau a ddisgrifir yma.

Os byddwch chi'n gwneud cais am eich morgais gyda gwarantwr, bydd y person hwnnw'n gweld yr hysbysiad preifatrwydd hwn pan fydd ef / hi'n cyflwyno'i wybodaeth bersonol i ni am ei bod hi'n ofynnol iddo ef / hi lofnodi'r ffurflen gais.

Os oes rhywun ag atwrneiaeth dros eich materion ariannol, bydd y person hwnnw'n gweld yr hysbysiad preifatrwydd hwn pan fyddwn ni'n cysylltu'n uniongyrchol ag ef / hi.

5. Pa wybodaeth bersonol fyddwn ni'n ei gasglu?

Bydd yr wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch yn dibynnu ar y cynnyrch neu'r gwasanaethau y byddwch chi'n ymgeisio amdanynt ac, os yw eich cais yn llwyddiannus, a ddarperir gennym i chi.

Byddwn ni'n casglu'r wybodaeth ganlynol yng nghyd-destun pob un o'n cynnyrch a gwasanaethau:

- Eich teitl, enw llawn, eich manylion cyswllt, gan gynnwys er enghraifft eich cyfeiriad e-bost, cartref a rhifau ffôn symudol;
- Eich cyfeiriad cartref, cyfeiriad cyfathrebu (pan fo'n wahanol i'ch cyfeiriad cartref) a hanes cyfeiriadau;
- Eich dyddiad geni a / neu oedran e.e. i wneud yn siŵr eich bod chi'n gymwys i wneud cais am y cynnyrch a / neu'i fod yn addas ar eich cyfer;
- Eich cenedligrwydd, os yw hyn yn angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol;
- Cofnodion am y modd y bu i chi gysylltu â ni; a
- Rhai categorïau arbennig o ddata personol megis am eich iechyd neu os ydych chi'n gwsmer bregus.

Os byddwch chi'n gwneud cais am forgais, fe allwn ni hefyd gasglu:

- Eich manylion ariannol e.e. eich cyflog a manylion unrhyw incwm arall, manylion eich cynilon, manylion eich gwariant, a manylion unrhyw gyfrif(on) sy'n cael eu dal gan ddarparwyr eraill os ydych chi'n talu eich morgais o'r cyfrif(on) hwnnw.
- Manylion am eich holl fenthyciadau presennol;
- Gwybodaeth bersonol am eich hanes credyd y byddwn ni'n ei gael o Asiantaethau Cyfeirio Credyd gan gynnwys data sy'n deillio o'r Post Brenhinol (cyfeiriadau post yn y DU), awdurdodau lleol (y gofrestr etholiadol), y gwasanaeth ansolfedd, Tŷ'r Cwmnïau, benthycwyr eraill a darparwyr credyd (sy'n darparu data i'r CRAs), dyfarniadau llysoedd, ordinhadau a gorchmynion gweinyddu a wnaed yn gyhoeddus drwy gofrestrau cyhoeddus statudol (gweler yr adran ar 'Asiantaethau Cyfeirio Credyd' isod);
- Gwybodaeth am eich statws cyflogaeth gan gynnwys a oes gennych swydd, a ydych wedi ymddeol neu'n derbyn budd-daliadau;
- Gwybodaeth am eich statws meddiannydd, megis a ydych chi'n denant, yn byw gyda rhieni neu'n berchennog feddiannydd yr eiddo ble rydych chi'n byw adeg gwneud eich cais;
- Gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch statws preswyllo a / neu ddinasyddiaeth, megis eich cenedligrwydd, hyd eich cyfnod preswyllo yn y DU a / neu a oes gennych hawl parhaol i breswyllo yn y DU;
- Eich statws priodasol, amgylchiadau teuluol, cymdeithasol neu arferion bywyd, os ydyn nhw'n berthnasol i'r cynnyrch morgais (e.e. sawl un sy'n dibynnu arnoch neu a ydych chi'n weddw); a
- Ble bo'n berthnasol, wybodaeth am unrhyw warantwr y byddwch chi'n ei ddarparu mewn unrhyw gais.

Os byddwch chi'n gwneud cais am gynnyrch cynilo, fe allwn ni hefyd gasglu:

- Eich manylion ariannol e.e. eich cyflog a manylion unrhyw incwm arall, manylion eich cynilon eraill, a manylion unrhyw gyfrif(on) sy'n cael eu dal gan ddarparwyr eraill os ydych chi'n talu i mewn i'ch cynnyrch cynilo o'r cyfrif(on) arall hwnnw;
- Pan fydd person heblaw am ddeiliad y cyfrif cynilo'n tynnu arian o'r cyfrif, gwybodaeth am y person hwnnw a'r trafodiad; a
- Gwybodaeth am eich safle treth.

Gallwn gael data personol oddi wrth drydydd parti er mwyn olrhain unigolion

Gallwn hefyd fonitro'r defnydd a wnewch o'n gwefan, gan gynnwys casglu data lleoliad a thrafnidiaeth.

6. Cadw mewn cyswllt â chi

Fe allwn ni ddefnyddio eich cyfeiriad cartref, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost i roi gwybodaeth bwysig i chi am eich cyfrifon. Ni fyddwn byth yn gofyn i chi ddatgelu eich cyfrinair na gwybodaeth bersonol dros e-bost.

Yn ogystal, fe allwn ddefnyddio eich manylion cyswllt i gysylltu â chi â gwybodaeth farchnata am ein cynnyrch a'n gwasanaethau eraill a dllai fod o ddiddordeb i chi. Ar hyn o bryd, dim ond drwy'r post y gwnawn hyn. Bydd gennych gyfle i optio allan o dderbyn gwybodaeth farchnata o'r fath pan fyddwch chi'n rhoi eich manylion i ni am y tro cyntaf, a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

7. Beth yw ein rhesymau cyfreithiol dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol?

Mae deddfau diogelu data'n mynnu ein bod ni'n esbonio ein rhesymau cyfreithiol dros brosesu eich data personol. Rydym ni'n defnyddio'r term **prosesu** i ddisgrifio popeth a wnawn â'ch gwybodaeth bersonol, o'i gasglu hyd at ei ddinistrio neu ddileu. Mae hyn yn cynnwys rhannu eich data â sefydliadau eraill.

Dyma'r amodau cyfreithiol sy'n berthnasol i ni:

- Prosesu sy'n ofynnol i ni **gyflawni ein cytundeb â chi neu i gymryd camau cyn mynd iddo (yn ystod y cyfnod ymgeisio)**. Byddwn ni'n defnyddio'r amod hwn ar gyfer:
 - a) Gweinyddu a rheoli eich cyfrifon, diweddarau eich cofnodion, dod o hyd i'ch lleoliad a gwneud hyn ar gyfer adfer dyled yn achos cynnyrch morgais;
 - b) Rhannu eich gwybodaeth bersonol â darparwyr gwasanaethau talu eraill, megis pan fyddwch chi'n gofyn i ni rannu gwybodaeth am eich cyfrif â nhw;
 - c) Rheoli eich morgais neu gyfrif cynilo, gan gynnwys ymholiadau, ceisiadau, gweinyddu a rheoli cyfrifon, darluniau, ymholiadau am drosglwyddo ecwiti, a sefydlu / newid / diddymu gwarantwyr yn achos cyfrif morgais; ac
 - d) Asesu ceisiadau am gyflogaeth gyda ni.
- Prosesu sy'n angenrheidiol i ni **gydymffurfio â'n hymrwymiaadau cyfreithiol** fel cymdeithas adeiladu a reoleiddir. Byddwn ni'n defnyddio'r amod hwn ar gyfer:
 - a) Cydymffurfio â deddfau sy'n berthnasol i ni;
 - b) Sefydlu, amddiffyn a gorfodi ein hawliau cyfreithiol;
 - c) Gweithgareddau sy'n ymwneud ag atal, darganfod ac ymchwilio i drosedd;
 - d) Asesu ceisiadau am gyflogaeth gyda ni;
 - e) Er mwyn cynnal gwiriadau hunaniaeth, gwiriadau gwrth-wyngalchu-arian cyn ymgeisio, yn ystod y cam ymgeisio ac o bryd i'w gilydd wedi hynny.
 - f) I gynnal monitro ac i gadw cofnodion (gweler isod);
 - g) I ddelio â cheisiadau oddi wrthyhych chi i arfer eich hawliau o dan gyfreithiau diogelu data;
 - h) I brosesu gwybodaeth am drosedd a thrafodion sy'n gysylltiedig â hynny (yn ymarferol bydd hyn yn berthnasol os ydym yn gwybod am neu'n amau twyll); a
 - i) Phan fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol â'r bobl neu sefydliadau eraill hyn:
 - Eich gwarantwr (os oes gennych un);
 - Deiliaid cyfrifon ar y cyd, ymddiriedolwyr a buddolion, a'r person ag atwrneiaeth dros eich materion;
 - Darparwyr gwasanaethau taliadau eraill megis pan fyddwch chi'n gofyn i ni rannu gwybodaeth am eich cyfrif gyda nhw;
 - Deiliaid cyfrifon eraill neu unigolion eraill pan fydd yn rhaid i ni ddarparu eich gwybodaeth iddynt am na ddylai rhywfaint o arian a dalwyd i chi ganddyn nhw fod yn eich cyfrif;
 - Asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrrff llywodraethol a rheoleiddiol megis Cyllid a Thollau, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Awdurdod Rheoleiddio Ariannol, yr Ombwdsmon, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac o dan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (gan ddiwynnu ar amgylchiadau'r rhannu); a
 - Llysoedd ac unrhyw sefydliad arall bel bo hynny'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder, gwarchod buddiannau hanfodol a gwarchod diogelwch neu wirionedd ein gweithrediadau busnes.
- **Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithlon ein hunain** neu sefydliadau eraill (a restrwyd gennym ym mhwynt (j) isod), ble nad yw'r diddordebau hynny'n cael eu gwrthbwysu gan unrhyw duedd yn erbyn eich hawliau a'ch rhyddid. Byddwn ni'n defnyddio'r amod hwn ar gyfer:
 - a) Gweinyddu a rheoli eich cyfrifon, diweddarau eich cofnodion, dod o hyd i'ch lleoliad, a gwneud hyn ar gyfer adfer dyled yn achos cynnyrch morgais
 - b) Er mwyn profi perfformiad ein cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau mewnol
 - c) Er mwyn glynu wrth arweiniad ac arfer dda o dan dref cyrrff llywodraethol a rheoleiddiol megis Cyllid a Thollau, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Awdurdod Rheoleiddio Ariannol, yr Ombwdsmon, Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth, ac o dan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol;

- d) Er mwyn rheoli ac archwilio ein gweithrediadau busnes gan gynnwys cyfrifo;
- e) I gynnal archwiliadau mewn Asiantaethau Cyfeirio Credyd cyn ymgeisio, yn ystod y cyfnod ymgeisio ac yn achlysurol wedi hynny;
- f) I gynnal monitro ac i gadw cofnodion (gweler isod);
- g) I weinyddu ein gofynion llywodraethiant da megis adrodd mewnol a dyletswyddau neu weinyddu cydymffurfio sy'n angenrheidiol ar gyfer prosesau Cyfarfodydd Blynyddol; er enghraifft i fesur cymhwysedd i bleidleisio ac i ddarparu gwybodaeth bleidleisio;
- h) I bwrpasau ymchwil y farchnad a dadansoddi ac i ddatblygu ystadegau;
- i) I gyfathrebu â marchnata uniongyrchol; a
- j) Phan fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol â'r bobl neu sefydliadau eraill hyn:
 - Eich gwarantwr (os oes gennych un);
 - Deiliaid cyfrifon ar y cyd, ymddiriedolwyr a buddolion, a'r person ag atwrneiaeth dros eich materion;
 - Darparwyr gwasanaethau taliadau eraill megis pan fyddwch chi'n gofyn i ni rannu gwybodaeth am eich cyfrif gyda nhw;
 - Deiliaid cyfrifon eraill neu unigolion eraill pan fydd yn rhaid i ni ddarparu eich gwybodaeth iddynt am na ddylai rhywfaint o arian a dalwyd i chi ganddyn nhw fod yn eich cyfrif;
 - Y brocer neu ganolwr arall a'ch cyflwynodd chi i ni
 - Ein hymgynghorwyr, archwilwyr a chyfrifwyr cyfreithiol a phroffesiynol eraill;
 - Sefydliadau ariannol a chymdeithasau masnach;
 - Sefydliadau a busnesau eraill sy'n darparu gwasanaethau i ni megis asiantaethau adfer dyled, ddarparwyr llwyfannau wrth gefn a gweinydd, darparwyr meddalwedd TG a chynnal a chadw, darparwyr storio dogfennau a chyflenwyr ffwythiannau swyddfa gefn eraill;
 - Prynwyr a'u cynrychiolwyr proffesiynol fel rhan o unrhyw ailstrwythuro neu werthu ein busnes neu asedau;
 - Asiantaethau Cyfeirio Credyd (gweler isod ble rydym ni'n esbonio mwy am hyn); a
 - Sefydliadau ymchwil y farchnad sy'n ein helpu i ddatblygu a gwella ein cynnyrch a'n gwasanaethau.
- Prosesu gyda'ch **cydsyniad**. Byddwn ni'n defnyddio'r amod hwn:
 - a) Pan fyddwch chi'n gofyn i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â rhywun arall ac yn cydsynio â hynny; a
 - b) Rhywfaint o'n prosesu o gategoriâu arbennig o wybodaeth bersonol megis ynglŷn â'ch iechyd neu os ydych chi'n gwsmer bregus (ac esbonnir i chi pan fyddwn ni'n gofyn am y cydsyniad penodol hwnnw i ba bwrpas, rhannu a defnydd y bydd).
- Prosesu sydd ar gyfer **diddordeb cyhoeddus sylweddol** o dan ddeddfau sy'n berthnasol i ni pan fydd hyn yn ein helpu i gwrrd â'n dyletswyddau cymdeithasol ehangach. Byddwn ni'n defnyddio'r amod hwn ar gyfer:
 - a) prosesu o gategoriâu arbennig o wybodaeth bersonol megis ynglŷn â'ch iechyd neu os ydych chi'n gwsmer bregus. Gallwch gael taflen am gwsmeriaid bregus os cysylltwch â'n swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod;
 - b) prosesu y mae gofyn i ni ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a'n gofynion rheoleiddiol; a
 - c) phan fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol â phobl a sefydliadau eraill os oes angen iddyn nhw wybod eich bod chi'n gwsmer bregus a'ch perthnasau, gwasanaethau gwasanethau cymdeithasol, eich gofalwr, y person sydd ag atwrneiaeth dros eich materion.

8. Sut a phryd allwch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl?

Fel yr esboniwyd gennym uchod, mae llawer o'r hyn a wnawn â'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei wneud heb sail eich cydsyniad. Yn hytrach, fe'i seilir ar amodau cyfreithiol eraill, ar gyfer prosesu sy'n seiliedig ar eich cydsyniad, mae gennych hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Canlyniad tynnu eich cydsyniad yn ôl allai fod na allwn ni anfon rhai o'r cyfathrebiadau marchanta atoch, neu na allwn ystyried categorïau arbennig o ddata personol, megis ynglŷn â'ch iechyd neu os ydych chi'n gwsmer bregus (ond bydd y deilliannau hyn ond yn berthnasol mewn achosion pan fyddwn ni'n dibynnu ar gydsyniad penodol ar gyfer hyn).

9. Â phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol?

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, fe allwn ni rannu eich gwybodaeth bersonol â:

- Eich gwarantwr (os oes gennych un);
- Deiliaid cyfrifon ar y cyd, ymddiriedolwyr a buddolion, a'r person ag atwrneiaeth dros eich materion (ymhob achos dim ond os yw'n berthnasol i chi);
- Darparwyr gwasanaethau taliadau eraill megis pan fyddwch chi'n gofyn i ni rannu gwybodaeth am eich cyfrif gyda nhw;

- Deiliaid cyfrifon eraill neu unigolion eraill pan fydd yn rhaid i ni ddarparu eich gwybodaeth iddynt am na ddylai rhywfaint o arian a dalwyd i chi ganddyn nhw fod yn eich cyfrif;
- Y brocer neu ganolwr arall a'ch cyflwynodd chi i ni
- Ein hymgynghorwyr, archwilwyr a chyfrifwyr cyfreithiol a phroffesiynol eraill;
- Sefydliadau ariannol a chymdeithaau masnach;
- Sefydliadau a busnesau eraill sy'n darparu gwasanaethau i ni megis asiantaethau adfer dyled, ddarparwyr llwyfannau wrth gefn a gweinydd, darparwyr meddalwedd TG a chynnal a chadw, darparwyr storio dogfennau a chyflenwyr ffwythiannau swyddfa gefn eraill;
- Prynwyr a'u cynrychiolwyr proffesiynol fel rhan o unrhyw ailstrwythuro neu werthu ein busnes neu asedau;
- Asiantaethau Cyfeirio Credyd a'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (DBS);
- Sefydliadau ymchwil y farchnad sy'n ein helpu i ddatblygu a gwella ein cynnyrch a'n gwasanaethau.
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrrff llywodraethol a rheoleiddiol megis Cyllid a Thollau, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Awdurdod Rheoleiddio Ariannol, yr Ombwdsmon, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac o dan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (gan ddibynnu ar amgylchiadau'r rhannu); a
- Llysoedd ac unrhyw sefydliad arall fel bo hynny'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder, gwarchod buddiannau hanfodol a gwarchod diogelwch neu wirionedd ein gweithrediadau busnes.
- Fe allwn rannu data personol â thrydydd parti i bwrpasau olrhain a gwirio data.

10. Ydy eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU?

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio yn y DU ac ni fyddwn ni'n symud eich gwybodaeth bersonol allan o'r DU fel rheol. Os bydd problem yn codi ar eich cyfrif, efallai y bydd angen i ni ganiatáu i'n his-gontractiwr, a leolir y tu allan i'r DU (yn India ar hyn o bryd) gael mynediad i'ch gwybodaeth. Pan fyddwn ni'n mynd i gytundeb gyda darparwyr o'r fath, yna os yw eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) mae'n cael ei gwarchod gan reoliadau gwarchod data Ewropeaidd. Mae gan rai gwledydd y tu allan i'r EEA safonau gwarchod digonol ar gyfer gwybodaeth bersonol dan ddeddfau sy'n berthnasol i ni. Rydym wedi gosod mesurau ar waith i sicrhau fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gwarchod os oes angen cael mynediad iddi o'r tu allan i'r EEA. I gael rhagor o wybodaeth am y mesurau hyn, cysylltwch os gwelwch yn dda â'n Swyddog Diogelu Data.

11. Asiantaethau cyfeirio credyd

Er mwyn prosesu eich cais, byddwn ni'n cynnal gwiriadau hunaniaeth arnoch chi gydag un neu fwy o asiantaethau cyfeirio credyd (credit reference agencies –CRAs). Fe allwn hefyd gynnal chwiliadau pellach o bryd i'w gilydd â CRAs i'n galluogi i reoli eich cyfrif gyda ni.

I wneud hyn, byddwn ni'n rhoi eich gwybodaeth bersonol i CRAs. Bydd hyn yn cynnwys eich enw, dyddiad geni a chyfeiriad preswyllo. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel eich cyflog, cyfeiriadau preswyllo blaenorol a gwybodaeth arall y byddwch chi'n ei darparu fel rhan o'ch cais am gredyd.

Bydd y CRAs yn paru'r wybodaeth â'r cofnodion sydd ganddyn nhw amdanoch chi, a darparu yn gyfnewid wybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys y rhestr etholwyr) a gwybodaeth gredyd a rennir, o ran eich sefyllfa ariannol a'ch hanes ariannol.

Bydd CRAs yn rhoi i ni wybodaeth gyhoeddus (gan gynnwys y rhestr etholwyr) a gwybodaeth gredyd a rennir, o ran eich sefyllfa ariannol a'ch hanes ariannol a gwybodaeth atal twyll.

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i:

- Asesu eich teilyngdod i gael credyd ac a allwch chi fforddio cymryd y cynnyrch;
- Gwirio cywirdeb y data y bu i chi ei ddarparu i ni;
- Atal gweithgaredd troseddol, e.e. twyll a gwyngalchu arian;
- Rheoli eich cyfrif(on);
- Olrhain ac adfer unrhyw ddyledion; a
- Sicrhau fod unrhyw gynigion a roddir i chi yn addas ar gyfer eich amgylchiadau.

Byddwn ni'n parhau i gyfenwid gwybodaeth amdanoch chi gyda CRAs tra bo gennych berthynas â ni. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r CRAs am eich cyfrifon a setlwyd. Os byddwch chi'n benthycu ac yn methu ag ad-dalu'n llawn neu'n brydlon, bydd CRAs yn cofnodi'r ddyled sy'n weddill. Gellir rhoi'r wybodaeth hon i sefydliadau eraill gan CRAs.

Pan fydd CRAs yn derbyn chwiliad gennym ni, byddan nhw'n gosod ôl troed chwiliad ar eich ffeil gredyd y gall benthycwyr eraill ei weld.

Os ydych chi'n gwneud cais ar y cyd, neu'n dweud wrthym fod gennych gymar neu bartner ariannol, byddwn ni'n cysylltu eich cofnodion gyda'i gilydd, felly dylech sicrhau eich bod chi'n trafod hyn gyda nhw, ac yn rhannu'r

wybodaeth hon gyda nhw, cyn gwneud y cais. Bydd CRAs hefyd yn cysylltu eich cofnodion gyda'i gilydd a bydd y cysylltiadau hyn yn aros ar eich ffeil chi a'u ffeil nhw hyd nes y byddwch chi neu eich partner yn cofrestru'n llwyddiannus i gael datgysylltiad gyda'r CRAs i dorri'r cyswllt hwnnw.

Esbonnir hunaniaeth y CRAs, eu rôl fel asiantaethau atal twyll, y data a gedwir ganddynt, y ffyrdd y byddan nhw'n defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth bersonol, cyfnodau cadw data a'ch hawliau diogelu data chi gyda'r CRAs mewn mwy o fanylder ar <https://www.equifax.co.uk/crain>.

12. Beth ddylech chi ei wneud os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid?

Dylech ddweud wrthym yn ddiymdroi er mwyn i ni allu diweddarau ein cofnodion. Y manylion cyswllt i'r perwyl hwn yw: dpo@swansea-bs.co.uk. Os cawsoch eich cyflwyno i ni gan frocer neu ganolwr arall, dylech gysylltu â nhw ar wahân. Mewn rhai achosion ble byddwch chi'n gweithredu hawliau yn ein herbryn o dan ddeddfau diogelu data (gweler isod) efallai y bydd angen i ni roi gwybod i'r brocer neu'r canolwr arall, ond nid dyma fydd yr achos bob tro.

13. Ydym ni'n gwneud unrhyw fonitro sy' cynnwys prosesu eich gwybodaeth bersonol?

Yn yr adran hon mae monitro'n golygu unrhyw wrando ar, gwyllo, ymyrryd â, neu gymryd a chadw cofnod o (yn ôl yr achos) alwadau, e-byst, negeseuon testun, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, mewn cyfarfodydd personol wyneb yn wyneb a chyfathrebiadau eraill.

Fe allwn fonitro ble caniateir gan y gyfraith a gwnawn hyn pan fydd y gyfraith yn gofyn amdano. Yn enwedig, ble mae gofyn i ni wneud hynny gan weithdrefn reoleiddio'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, byddwn ni'n recordio rhai llinellau ffôn neu gyfarfodydd personol (fel y bo'n berthnasol).

Bydd rhyw gymaint o'n monitro'n digwydd er mwyn cydymffurfio â rheolau rheoleiddio, arferion hunan-reoleiddio neu weithdrefnau sy'n berthnasol i'n busnes, i atal neu ganfod trosedd, er lles gwarchod diogelwch ein systemau a gweithdrefnau cyfathrebu, i gael cofnod o'r hyn a drafodwyd rhyngom ni a chi a gweithredoedd a gytunwyd â chi, i'ch gwarchod chi a darparu diogelwch i chi (megis yng nghyd-destun perygl twyll ar eich cyfrif) ac ar gyfer pwrpasau rheoli ansawdd a hyfforddi staff.

Fe allwn gynnal monitro byr-dymor a reolir yn ofalus o'ch gweithgareddau chi ar eich cyfrif morgais neu gynilo ble bydd hynny'n ofynnol er lles ein buddiannau cyfreithlon neu i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol, megis pan fyddwn ni'n amau twyll, gwyngalchu arian neu droseddau eraill.

Gellir recordio galwadau ffôn a / neu gyfarfodydd personol rhyngom ni a chi yng nghyd-destun eich cais a'r morgais neu gynnyrch cynilo, i sicrhau fod gennym gofnod o'r hyn a drafodwyd a beth yw eich cyfarwyddiadau. Fe allwn hefyd recordio'r mathau hyn o alwadau ar gyfer pwrpasau rheoli ansawdd a hyfforddi staff.

14. Am faint o amser fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol?

Ar y cyfan, byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth gydol yr amser y bydd gennych chi gyfrif gyda ni, ac am gyfnod o chwe blynedd ar ôl i'ch cyfrif gael ei gau. O dan rai amgylchiadau, gallwn ni gadw eich gwybodaeth am yn hwy na hyn, er enghraifft pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny gan y gyfraith, neu ble bydd angen yr wybodaeth arnom i amddiffyn a gweithredu ein hawliau cyfreithiol. Fe allwn hefyd gadw hanes trafodion i bwrpasau ymchwil ystadegol ac adrodd yn ôl.

Pan na fydd yr wybodaeth bersonol yn perthyn i gyfrif (er enghraifft os ydych wedi ymholi am ein gwasanaethau ond heb agor cyfrif) byddwn ni ar y cyfan ond yn cadw eich gwybodaeth am y cyfnod y cymer hi i drin a'ch ymholiad ac am gyfnod o 12 mis.

Os hoffech ragor o wybodaeth am ein harferion cadw data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data.

15. Eich hawliau

O dan ddeddfau diogelu data, mae gennych chi yr hawliau a restrir isod. Os dymunwch ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data os gwelwch yn dda. Byddwn yn anelu i ymateb o fewn mis. Ni chodir tâl am wneud cais. Nodwch os gwelwch yn dda na fydd pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol i'ch holl wybodaeth bersonol.

- **Yr hawl i gael gwybodaeth** – rhaid i ni fod yn dryloyw gyda chi ynghylch y prosesu a wnawn o'ch gwybodaeth bersonol Dyma pam fod gennym hysbisiad preifatrwydd.
- Yr hawl i ofyn i ni **gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir ac i gael cwblhau gwybodaeth bersonol anghyflawn**. Os ydym wedi datgelu'r wybodaeth bersonol o dan sylw i sefydliadau eraill, rhaid i ni roi gwybod iddynt am y cywiriad ble bo'n bosib.
- Yr hawl i **wrthwynebu i brosesu eich gwybodaeth bersonol gennym** ble seilir hynny ar ein diddordebau cyfreithlon, ble mae'n cael ei phrosesu ar gyfer marchnata uniongyrchol neu pan fydd yn cael ei phrosesu i bwrpasau ystadegol. Fe all eich hawl i wrthwynebu fod yn berthnasol os dymunwch wybod mwy am y diddordebau cyfreithlon y byddwn ni'n dibynnu arnynt (fe'u rhestrir yn ein hysbysid preifatrwydd).
- Yr hawl i **gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.
- Yr hawl i ofyn i ni **ddileu eich gwybodaeth bersonol**. Nid yw'r hawl yn un absoliwt – mae'n weithredol mewn amgylchiadau penodol yn unig, a, ble nad yw'n weithredol, byddwn ni'n dweud wrthyhych. Ni fyddwn ni'n gallu cydymffurfio os oes gofyn i ni gadw eich gwybodaeth bersonol er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol neu i arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wneud cais i gael mynediad i'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi**. Disgrifir hyn yn aml fel Cais Mynediad Pwnc.
- Yr hawl i ofyn am eich gwybodaeth bersonol mewn fformat y gellir ei ail-ddefnyddio (a elwir yn **hawl i gludedd data**). Mae'r hawl hwn yn weithredol yn unig pan fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu ar sail eich cydsyniad neu i gyflawni cytundeb, ac mae'n cael ei wneud drwy ddulliau awtomedig. Mae hyn ar wahân i Gais Mynediad Pwnc.

Os dymunwch weithredu unrhyw rai o'r hawliau hyn yn erbyn yr Asiantaethau Cyfeirio Credyd neu frocer neu ganolwr arall, bydd angen i chi gysylltu â nhw ar wahân.

Os ydych chi'n anfodlon â'r modd yr ydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch os gwelwch yn dda â'n Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf a gwnawn ein gorau i ddatrys eich cwyn. Serch hynny, mae gennych yn ogystal hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr ar gyfer cyfreithiau diogelu data: <https://ico.org.uk/>

Swansea Building Society

11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW
www.swansea-bs.co.uk
